Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Rhaglen Diwygio Mynediad

## Papur Diffinio Problemau: Grŵp Arbenigol 1

## Newidiadau i Dir Mynediad Agored o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42943 ISBN Digidol 978-1-80391-119-9

# Rhagair

Yn 2017, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a oedd yn cynnwys diwygiadau arfaethedig mewn perthynas â mynediad i gefn gwlad. Nododd dull y llywodraeth o weithredu'r cynigion mynediad yn ôl egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy y canlynol:

- Mae ein Polisi Adnoddau Naturiol yn dangos y gall atebion sy'n seiliedig ar natur hybu iechyd corfforol a meddyliol. Dyna pam yr ydym, fel llywodraeth, wedi ymrwymo i gynyddu mynediad pobl i'n cefn gwlad, a'u mwynhad ohono – er mwyn manteisio ar y buddion iechyd a llesiant llu a geir o fod yn yr awyr agored.
- Mae cefn gwlad hygyrch yn cefnogi'n hymdrechion i hybu Cymru fel cyrchfan twristiaeth.

Ar 4 Ebrill 2019, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol Ddatganiad Ysgrifenedig yn amlinellu ymateb y llywodraeth i'r cynigion mynediad o fewn Pennod 4. Yn y datganiad hwn, nodwyd saith cynnig yr oedd angen eu hystyried yn fanylach o safbwynt y ffordd y dylid eu datblygu ymhellach. Yn dilyn hyn, sefydlodd y Dirprwy Weinidog '**Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad**' annibynnol, yn cynnwys grŵp llywio a thri grŵp arbenigol, i ystyried y cynigion hyn ymhellach a gwneud argymhellion o safbwynt eu gweithredu.

Ym mis Rhagfyr 2019, comisiynwyd Partneriaeth BRO i wneud y canlynol:

- Adolygu nifer o'r ymatebion allweddol i ymgynghoriad 2017.
- Cynllunio a chyflenwi gweithdai a hwylusir ar gyfer pob un o'r tri grŵp arbenigol.
- Llunio tri Phapur Diffinio Problemau i'w hystyried gan grŵp llywio'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad.

**Sylwer**: bwriedir i'r papur hwn lywio gwaith datblygu'r cynigion ar gyfer diwygio mynediad fel rhan o broses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad; ni ddylid ystyried bod yr hyn sydd wedi'i gynnwys ynddo'n cynrychioli safbwynt polisi Llywodraeth Cymru, CNC, na'r sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan.

# Grŵp Arbenigol 1 – Newidiadau i Dir Mynediad Agored o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy

Bwriad y polisi: Cynyddu'r amrediad o weithgareddau a ganiateir ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (gan gynnwys cyrff dŵr ar fapiau'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy) a chreu tir mynediad newydd mewn ardaloedd arfordirol.

Gyda chyflwyniad mynediad agored o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, rhoddwyd yr hawl i'r cyhoedd gael mynediad ar droed i dir a ddosberthir, ac sydd wedi'i fapio, fel 'tir mynediad agored' o dan y Ddeddf.

Cyfarfu Grŵp Arbenigol 1 ar 3 Chwefror 2020, a gofynnwyd i'w aelodau ystyried sut y gellid ymestyn hawliau mynediad, o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, i farchogwyr ceffylau, beicwyr, a defnyddwyr hamdden penodedig eraill i dir mynediad agored (Diwygiad 1A), a sut y gellid ymestyn darpariaethau'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn hwyluso dynodi tir arfordirol fel tir mynediad agored er mwyn darparu 'gofod i ymestyn' cyfagos i lwybr presennol Llwybr Arfordir Cymru (Diwygiad 1B).

## Diwygiad 1A – Gweithgareddau newydd ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy

Lleihau'r cyfyngiadau ar y gweithgareddau hamdden a ganiateir ar dir mynediad agored lle defnyddir cerbydau nad ydynt wedi'u pweru'n fecanyddol. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Beicio
- Marchogaeth ceffylau
- Barcuta a pharagleidio

ac ar wyneb cyrff dŵr mewndirol, neu ynddynt (ac eithrio cronfeydd dŵr):

- Cychod nad ydynt wedi'u gyrru'n fecanyddol
- Ymdrochi/nofio

Disgwylir y caiff y cyfyngiadau Atodlen 2 canlynol eu cadw:

- Cyfyngiadau ar wersylla a chwaraeon a drefnir
- Cyfyngiadau ar hwylio ac ymdrochi ar wyneb cyrff dŵr o waith dyn, neu ynddynt

Nododd y grŵp arbenigol y materion allweddol o ran gweithredu Diwygiad 1A, gan eu gosod mewn chwe chategori, fesul thema, a darparodd sylwadau manwl ar bob thema.

Roedd y chwe thema a nodwyd fel a ganlyn:

- Materion cyfreithiol/diffinio
- Materion gweithredol/ymarferol
- Darparu gwybodaeth ac arweiniad i'r cyhoedd a thirfeddianwyr/rheolwyr tir
- Yr effaith bosibl ar yr amgylchedd
- Rheoli ymwelwyr, gan gynnwys y gwrthdaro posibl rhwng defnyddwyr
- Yr effaith ar arferion ffermio

Ceir crynodeb o'r materion a godwyd o dan bob un o'r penawdau hyn isod:

## Materion cyfreithiol/diffinio:

Teimlwyd bod angen cael eglurder o ran yr hyn a fyddai ac na fyddai caniatâd i'w wneud, ac ymhle, gan gynnwys mewn perthynas â thir mynediad newydd ei ddiffinio o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Enghraifft benodol o hyn oedd paragleidio ar dir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, lle mae'n bosibl na fydd y sawl sy'n gwneud y gweithgaredd yn gallu rhagweld ble y bydd yn glanio, yn fanwl gywir, gan arwain at faterion tresmasu posibl. Byddai angen i ddiffiniadau o elfennau fel cyrff dŵr mewndirol gael eu llywio gan y drafodaeth sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd yn y Fforwm Mynediad Cenedlaethol, ond byddai angen iddynt hefyd fod yn eglur i'r defnyddiwr ar lawr gwlad er mwyn nodi lle y gall fynd fel nad oes unrhyw amwysedd. Yn yr un modd, teimlwyd y byddai angen ystyried y diffiniadau o chwaraeon a digwyddiadau a drefnir.

Trafodwyd eithriadau i'r diwygiad hefyd, yn enwedig p'un a ddylid cynnwys gyrwyr coetsys, a ph'un a ddylid cynnwys beiciau trydanol, sy'n gynyddol boblogaidd, ynteu beidio.

Roedd anomaleddau cyfreithiol eraill yn ymwneud â'r berthynas rhwng tir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, a thir comin, a sut i sicrhau bod defnyddwyr newydd yn gwybod i ble y byddai eu hawliau'n ymestyn. Mae hyn yn codi'r cwestiwn o dir eithriedig a ph'un a fyddai angen ei adolygu er mwyn ystyried hawliau defnyddwyr ychwanegol. Er enghraifft, a fyddai gan rai defnyddwyr fynediad i dir na fyddai gan ddefnyddwyr eraill fynediad iddo?

Codwyd y pwynt cyffredinol canlynol ynghylch sut y câi'r newidiadau eu cymhwyso: y dewis rhwng tynnu'r holl gyfyngiadau ar yr un pryd, ac yna gorfodi rheolaethau fesul achos lle ceir problemau, yn hytrach na dilyn dull sy'n seiliedig ar godi cyfyngiadau ar sail cais [er enghraifft], lle gellir dangos na fydd effeithiau andwyol sylweddol. Mae hwn yn bwynt hanfodol, a gaiff ei drafod ymhellach ar ddiwedd y papur hwn ac a allai godi yn yr opsiynau arfaethedig.

Nodwyd bod beiciau pedal a gynorthwyir yn drydanol sy'n cydymffurfio â rheoliadau yn feiciau pedal at ddibenion y ddeddfwriaeth bresennol, ac felly byddent yn cael eu cynnwys yn yr hawliau uwch ar gyfer beicwyr oni bai iddynt gael eu heithrio yn benodol.

**Materion allweddol:**

1. O safbwynt yr hawliau a chyfrifoldebau a gaiff eu cymhwyso i dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, beth yw'r ffordd orau o'u diffinio yn y ddeddfwriaeth, a sut y cânt eu cymhwyso?
2. Beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyfleu'r hawliau a chyfrifoldebau i bobl, gan gynnwys ymwelwyr, mewn perthynas â thir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy? A yw'r darpariaethau presennol yn ddigonol, o safbwynt gwybodaeth wedi'i mapio, arwyddion ar lawr gwlad, ac arweiniad?
3. A fyddai'r effaith a berir gan rai mathau o ddefnyddwyr yn golygu na ddylid eu cynnwys yn y newidiadau arfaethedig? Er enghraifft, beiciau trydan?

## Materion gweithredol/ymarferol

Codwyd nifer o faterion ymarferol o safbwynt mynedfeydd ac allanfeydd ar dir mynediad ar gyfer defnyddwyr gwahanol, yn enwedig sut i gludo cychod i gyrff dŵr mewndirol, a hefyd darparu cyfleusterau parcio ychwanegol ar gyfer wagenni ceffylau.

Roedd materion eraill yn ymwneud â'r angen i ddefnyddwyr allu mwynhau rhwydwaith cydlynol a hygyrch a fyddai'n rhydd rhag nodweddion terfyn mewnol y byddai'n rhwystro'u teithiau ymlaen. Ceir angen hefyd i sicrhau bod tir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn cysylltu â llwybrau ehangach er mwyn iddo fod yn hygyrch, yn enwedig ar gyfer

marchogwyr ceffylau a beicwyr. Er nad yw'n ymwneud yn glir â'r diwygiad hwn, mae'n bwynt pwysig i'w amlygu gan fydd newid yn arwain at fwy o alwadau am gysylltiadau â thir mynediad agored, a phwysau ar awdurdodau lleol.

Nid oes asesiad wedi'i gynnal o'r gyfran o dir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a fyddai'n addas ar gyfer categorïau ychwanegol o ddefnyddwyr, ac nid oes ymchwil wedi'i chynnal ychwaith i ble, pryd a sut y gallai defnyddwyr o'r fath fod am ddefnyddio tir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Nid yw'n glir sut y câi'r tir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ei ddefnyddio gan geffylau a beiciau o bosib, yn ymarferol, nac ychwaith y swm o dir a ddefnyddid na'r effaith a geid ar lwybrau penodol ar draws tir mynediad. Gallai llwybrau y byddai modd eu nodi gael eu gorddefnyddio a'u herydu, gan leihau'r mwynhad ohonynt gan gerddwyr yn ogystal â'r marchogwyr ceffylau a'r beicwyr eu hunain. Mae cynnal a chadw arwynebau, a'u hatgyweirio, yn gostus, yn enwedig ar yr ucheldir, a gallai hyn fod yn faich ychwanegol i reolwyr tir ac awdurdodau lleol. Bydd defnyddio tir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn rhoi pwysau hefyd ar awdurdodau lleol a rheolwyr tir i newid gatiau a chamfeydd ar hyd llwybrau penodol allweddol, a bydd hyn yn gost ychwanegol. Os na fydd tir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn hygyrch i farchogwyr ceffylau a beicwyr, gallai hyn arwain at ddifrodi ffensys a therfynau. Gallai newid gatiau a chamfeydd er mwyn darparu ar gyfer marchogwyr ceffylau a beicwyr arwain at weithgareddau anghyfreithlon, fel gyrru cerbydau oddi ar y ffordd a thipio anghyfreithlon.

**Materion allweddol:**

4. Pa ddyletswyddau a phwerau y bydd eu hangen, o ganlyniad i'r newidiadau, er mwyn ei gwneud yn bosibl hwyluso a rheoli mynediad ar gyfer pob defnyddiwr, o fewn tir mynediad, ac iddo, ac er mwyn lliniaru yn erbyn effeithiau lle bônt yn digwydd?
5. Pa newidiadau fydd eu hangen i sicrhau y bydd modd arfer hawliau ar lawr gwlad? Pa ddyletswyddau fydd yn ofynnol er mwyn gallu mynd i'r afael â materion sy'n codi o safbwynt mynediad a rheoli tir?
6. Sut fydd y newidiadau'n darparu ar gyfer cynllunio ac asesu'r anghenion o safbwynt rheoli mynediad er mwyn hwyluso mynediad, neu'n ei gwneud yn bosibl rheoli unrhyw broblemau dilynol ar lawr gwlad, gan gynnwys rhwng pobl?
7. Sut fydd y costau, a'r gofynion adnoddau cynyddol a fydd yn deillio o'r newidiadau i'r dulliau o reoli mynediad a rheoli tir, yn cael eu hasesu?

Darparu gwybodaeth ac arweiniad i'r cyhoedd a thirfeddianwyr/rheolwyr tir

Bydd angen i farchogwyr ceffylau a beicwyr wybod am nifer o faterion ymarferol cyn cychwyn eu taith, e.e. ble i barcio, pwyntiau mynediad i dir mynediad, ac o fewn iddo, a ph'un a fydd adeileddau, fel gridiau gwartheg, gatiau a chamfeydd, na fyddant yn gallu mynd heibio iddynt. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer paragleidwyr, barcutwyr a'r bobl hynny sy'n bwriadu cludo cychod nad ydynt wedi'u gyrru'n fecanyddol i gyrff dŵr mewndirol.

Yn ogystal â nodi sut i gyrraedd lleoliad, bydd yn bwysig sicrhau bod gwybodaeth gyhoeddus yn glir ynghylch y cyfyngiadau ar weithgareddau y gellir eu gwneud, eu graddau, a'r hyn nas caniateir. Mae'r pwynt a godwyd uchod mewn perthynas â ble y gall paragleidwyr lanio yn enghraifft o'r angen i sicrhau y ceir cyfathrebu clir.

Gallai marchogwyr ceffylau, beicwyr, a defnyddwyr eraill a gwmpesir gan y diwygiad achosi problemau ychwanegol, anfwriadol, fel effeithiau ar ffermio, gwaith cwympo coed neu fywyd gwyllt. Bydd yn bwysig sicrhau dealltwriaeth o unrhyw effeithiau o'r fath, ac, os bydd angen, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol adolygu eithriadau, ac adolygu'r cynllun ar gyfer gwaharddiadau a chyfyngiadau. Os cyflwynir newidiadau o'r fath, bydd angen gwaith

cyfathrebu ychwanegol er mwyn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn eglur o ran ble y gallant fynd, a'r hyn y gallant neu na allant ei wneud ar adegau penodol.

Canolbwyntiodd y drafodaeth hefyd ar yr angen i ddarparu arweiniad clir i'r cyhoedd ynghylch gweithgareddau hamdden cyfrifol, ac i sicrhau bod yr arweiniad hwnnw'n wedi'i ledaenu a'i ddeall yn eang. Dylid ystyried cynnwys gwybodaeth o'r fath yn y cwricwlwm cenedlaethol er mwyn annog ymddygiad cyfrifol o oedran cynnar. Er na fydd hyn, o bosib, yn oblygiad uniongyrchol o unrhyw newid arfaethedig, mae'n ystyriaeth ychwanegol y bydd angen cyllid arni. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen gwaith cyfathrebu ychwanegol mewn perthynas â thir trawsffiniol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Gallai'r diwygiad hwn arwain at ganlyniadau eraill, gan gynnwys achosi problemau sy'n cael effaith ar fusnesau ffermwyr a rheolwyr tir. Bydd yn bwysig, felly, eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau a ganiateir gan y diwygiad newydd, a'r sawl y dylent gysylltu ag ef os ydynt yn profi problemau, e.e. nodweddion terfyn yn cael eu tynnu i lawr ar dir y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

**Materion allweddol:**

8. Pa newidiadau i drefniadau gwaharddiadau a chyfyngiadau y bydd angen eu gweithredu wrth newid hawliau mynediad?
9. Beth fydd y ffordd orau o gyfleu gwybodaeth am waharddiadau a chyfyngiadau, ar lawr gwlad ac mewn mannau eraill?
10. Beth yw'r ffordd orau o gyfleu gwybodaeth am ymddygiadau priodol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid (gan gynnwys hawliau a chyfrifoldebau), a chyflawni'r ymddygiadau priodol hyn, a'u gorfodi lle bo angen?

## Yr effaith bosibl ar yr amgylchedd

Nodwyd bod diffyg ymchwil a thystiolaeth ar gael ar gyfer asesu i ba raddau y gallai defnyddwyr newydd amharu ymhellach neu achosi erydu ychwanegol. Bydd angen cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r newidiadau deddwriaethol arfaethedig er mwyn asesu a gwerthuso unrhyw effeithiau posibl, ac efallai y bydd angen hefyd cynnal asesiadau eraill o'r effaith amgylcheddol. Bydd yn anodd darogan yr effaith bosibl ar fywyd gwyllt o ganlyniad i weithredu Diwygiad 1A, er ei bod yn debygol y bydd yn gysylltiedig, i raddau helaeth, â safleoedd allweddol ar gyfer bywyd gwyllt a'i bod yn effaith dymhorol. Gallai gweithgareddau sy'n gysylltiedig â dŵr gael effaith ar adar sy'n nythu, yn enwedig mewn achosion lle gallai fod nifer uchel o bobl yn cymryd rhan ynddynt.

Fel man cychwyn, mae'n bosibl y bydd yn fanteisiol ystyried profiadau yn yr Alban er mwyn gweld pryd a ble mae effeithiau o'r fath wedi codi.

**Materion allweddol:**

11. A fydd yn ofynnol cyflwyno pwerau a dyletswyddau ychwanegol er mwyn sicrhau y gellir diogelu'r amgylchedd a safleoedd sensitif rhag yr effeithiau sy'n deillio o arfer hawliau, ac, os felly, pa newidiadau bydd eu hangen?
12. Sut y dylid asesu'r effaith amgylcheddol wrth gymhwyso gwaharddiadau a chyfyngiadau am resymau amgylcheddol?

Rheoli ymwelwyr, gan gynnwys y gwrthdaro posibl rhwng defnyddwyr

Fel y nodwyd uchod, gallai Diwygiad 1A arwain at lefelau uwch o erydu mewn mannau penodol, a châi hyn effaith ar fwynhad cerddwyr. Nid oes arolwg sylfaenol wedi'i gynnal y gellir adeiladu arno, o safbwynt effaith cerddwyr, er mwyn gallu asesu effaith ychwanegol y diwygiad hwn yn ddigonol.

Ceir hefyd nifer o faterion iechyd a diogelwch y gallai godi, e.e. lle gallai beicwyr mynydd sy'n disgyn i lawr allt yn gyflym beryglu pobl eraill. Gellid hefyd cael gwrthdaro posibl rhwng marchogwyr ceffylau a beicwyr, yn enwedig mewn mannau cyfyngedig ac ar hyd llwybrau penodol. Efallai na fyddai rhai defnyddwyr yn ymwybodol o'r peryglon posibl, er enghraifft marchogwyr ceffylau a beicwyr sy'n symud trwy lystyfiant ac ardaloedd o redyn lle mae'r llawr yn anwastad.

Ceir hefyd goblygiadau iechyd a diogelwch clir mewn perthynas â nofwyr a gweithgareddau â chychod yn achos cyrff dŵr mewndirol cymharol anghysbell lle nad oes cyfarpar diogelwch ar gael.

Teimlwyd y bydd annog ymddygiad cyfrifol yn helpu, ond gall fod yn anochel y bydd problemau'n digwydd. Gan fod gweithgareddau a phwysau hamdden yn newid yn gyflym iawn, bydd angen sicrhau bod unrhyw god neu arweiniad o safbwynt gweithgareddau hamdden cyfrifol yn hyblyg a bod modd ei addasu.

Bydd angen i reolwyr mynediad a thirfeddianwyr gydweithio a bod yn rhagweithiol wrth asesu lle gallai gwrthdaro ddigwydd, ac ar ba adegau o'r flwyddyn. Bydd goblygiadau adnoddau ynghlwm wrth hyn, y gallent fod yn sylweddol mewn rhai ardaloedd.

Bydd materion rheoli ymwelwyr yn fwy tebygol o ddigwydd mewn achosion lle bo defnyddwyr yn rhwystredig na allant gwblhau eu taith. Er enghraifft, mewn sefyllfa lle bo beiciwr yn croesi tir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, a, hanner ffordd ar ei draws, yn gweld bod gât neu gamfa'n rhwystro'i ffordd a'i fod yn methu ei chroesi heb beri anafu ei hun neu beri gwneud difrod i'r terfyn.

Gall risgiau iechyd a diogelwch eraill godi o ganlyniad i ddefnyddwyr sy'n croesi tir â stoc cynefin. Bu hyn yn destun sawl trafodaeth ynghylch diwygiadau 1 a 2.

**Materion allweddol:**
13. Sut y dylai newidiadau'r diwygiadau ddarparu ar gyfer iechyd a diogelwch defnyddwyr a buddiannau eraill?
14. Sut y gallai canllaw/fframwaith ar gyfer hybu ymddygiad cyfrifol wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden fod yn ddigon ymaddasol i gadw'n gyfoes â newidiadau ym maes hamdden, ac yn ddigon effeithiol i fod yn offeryn defnyddiol ar gyfer rheoli ymwelwyr?

## Yr effaith ar arferion ffermio

Cafwyd nifer o bryderon mewn perthynas â'r effaith bosibl ar arferion ffermio, gan gynnwys rhai nodedig fel a ganlyn:

- Rheolaeth stoc, o ganlyniad i adael gatiau a chamfeydd yn agored neu dynnu nodweddion terfyn i lawr. Gallai hyn gael effaith drychinebus o safbwynt y ffermwr, e.e. pe byddai hwrdd yn mynd i gae o famogiaid.
- Ceir problem hefyd o safbwynt ceffylau neu feiciau sy'n mynd heibio i anifeiliaid fferm yn gyflym, gan amharu arnynt, ac mae hyn yn enwedig yn berthnasol i famogiaid pan fônt yn wyna.
- Unwaith eto, fel y dyfynnwyd yn ystod rhai o'r trafodaethau eraill, nodwyd y bydd risg anochel o dynnu nodweddion terfyn i lawr oni osodir gatiau neu gamfeydd newydd a all ddarparu ar gyfer marchogwyr ceffylau a beicwyr, a bydd hyn yn golygu costau sylweddol i'r ffermwr.
- Gallai materion bioddiogelwch ychwanegol godi pe byddai ceffylau'n croesi tir amaethyddol ac yn lledaenu clefydau heintus.

- Fel y nodwyd uchod, ceir materion sy'n ymwneud â mynedfeydd ac allanfeydd ar dir mynediad ar gyfer marchogwyr ceffylau, beicwyr a pherchnogion cychod, yn enwedig o safbwynt lle y gallant barcio.
- Defnyddir rhai cyrff dŵr mewndirol fel cyflenwadau dŵr preifat; a gaiff y rhain eu heithrio?

Cododd pwynt cyffredinol mewn perthynas â'r costau economaidd i'r ffermwr – oherwydd costau yswiriant uwch a mwy o atebolrwydd posibl, o ganlyniad i ddifrod. Gall fod effaith ar fusnesau sydd eisoes yn bodoli hefyd. Er enghraifft, os yw ffermwr yn gweithredu ei fusnes merlota ar ei dir ei hun, sydd hefyd yn dir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, gallai'r diwygiad arwain at sefyllfa lle bo gweithgareddau masnachol newydd yn elwa ar ased y ffermwr. Fodd bynnag, dylid nodi bod y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn gwahardd gweithgareddau masnachol o'r hawliau, gan gynnwys gallu trydydd parti i godi tâl am weithgaredd y mae'n ei gynnal ar dir rhywun arall.

Yn yr un modd, teimlwyd y dylid diffinio gweithgareddau masnachol newydd yn glir, gan gynnwys digwyddiadau ar raddfa fawr, a sicrhau y byddant yn parhau i fod wedi'u gwahardd mewn unrhyw ddiwygiad. Byddai hyn yn unol â'r cyfeiriad polisi sy'n dod i'r amlwg ar gyfer cymorth i faes ffermio ar ôl y PAC, lle caiff ffermwyr a rheolwyr tir eu hannog i arallgyfeirio. Mewn geiriau eraill, ni ddylai buddiannau masnachol allanol elwa ar dir heb ganiatâd y tirfeddiannwr a heb unrhyw ganiatadau gofynnol eraill.

Byddai angen i'r goblygiadau yn sgil unrhyw faterion atebolrwydd ychwanegol fod yn eglur iawn. Ar adeg pan fo ffermwyr eisoes o dan bwysau economaidd sylweddol, bydd yn hanfodol sicrhau na fydd yr hawliau newydd hyn yn arwain at gau busnesau sefydledig, er y dylid nodi y gellir disgwyl y bydd atebolrwydd tirfeddianwyr yn lleihau mewn perthynas â'r hawliau estynedig.

Codwyd y pwynt hefyd, os caiff y diwygiad hwn (a Diwygiad 2A) eu cyflwyno cyn sefydlu ffrydiau cyllido amaethyddol newydd, ni fydd yn bosibl eu hadnabod fel nwyddau cyhoeddus ychwanegol, a byddai'n rhaid i ffermwyr a thirfeddianwyr dalu'r costau, gan beidio â derbyn unrhyw iawndal.

**Materion allweddol:**
15. Pa waharddiadau a chyfyngiadau fydd yn ofynnol er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr a'r anghenion o safbwynt rheoli tir?
16. Sut y caiff y gwaharddiadau eu cymhwyso i fathau penodol o ddŵr sydd wedi'i fapio o fewn ardal o dir mynediad agored, a pha fathau o ddŵr a gweithgareddau y dylent fod yn berthnasol iddynt? Pa ddiffiniadau y dylid eu defnyddio i fod yn gyson â'r diffiniadau a ddefnyddir mewn mannau eraill?
17. Sut y dylai newidiadau ei gwneud yn bosibl cynnwys darpariaethau i hwyluso mynediad, ac osgoi, neu liniaru yn erbyn, broblemau sydd ynghlwm â'r hawliau newydd?
18. Sut y dylid diffinio, a chymhwyso, 'defnydd masnachol', 'digwyddiadau' neu 'chwaraeon a drefnir' fel rhan o'r diwygiad?

## Diwygiad 1B – Mynediad arfordirol

Ymestyn tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i'r arfordir, clogwyni arfordirol a blaendraethau. Caiff ystyriaeth ei rhoi i fanteision cynnwys Llwybr Arfordir Cymru fel rhan o ddiffiniad tir mynediad arfordirol newydd o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

## Nododd y grŵp y themâu canlynol:

- Diffiniadau/cwmpas, gan gynnwys y cydberthynas â Llwybr Arfordir Cymru
- Cydberthynas â thir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy
- Cymharu â Lloegr
- Rheoli ymwelwyr
- Newid arfordirol
- Effeithiau ychwanegol

## Ymhelaethir ar y rhain isod:

Diffiniadau/cwmpas, gan gynnwys y cydberthynas â Llwybr Arfordir Cymru

Mae angen diffinio'r tir arfordirol sydd dan ystyriaeth, o safbwynt terfynau mewndirol a'r graddau y mae'n ymestyn tua'r môr, a ph'un a yw'n cynnwys y blaendraethau yn eu cyfanrwydd, gan ymestyn rhwng marc distyll a phenllanw cymedrig y gorllanw.

Mewn rhai ffyrdd, bydd hyn yn corffori mynediad *de facto* yn y ddeddfwriaeth, ond mewn ardaloedd eraill caiff hawliau mynediad newydd eu creu. Yn gysylltiedig â hyn, mae'r angen i ystyried cymeriad yr arfordir, sy'n cynnwys amrywiaeth o nodweddion llanwol, aberoedd mwdlyd, clogwyni arfordirol a thwyni. Nid mater syml yw diffinio graddau tir mynediad arfordirol ar draws y mathau gwahanol iawn hyn o dirwedd. Mae angen ystyriaeth ofalus hefyd wrth gynnwys elfennau fertigol, fel clogwyni a chwareli, gan na ellir eu diffinio'n rhwydd.

Os caiff y mynediad arfordirol newydd ei *angori* i nodwedd linol sydd eisoes yn bodoli, fel llinell Llwybr Arfordir Cymru, gallai hynny sicrhau rhywfaint o eglurder. Mewn geiriau eraill, gellid diffinio bod ‘tir mynediad arfordirol’ yn gorwedd tua'r môr o aliniad Llwybr Arfordir Cymru. Fodd bynnag, ar hyd sawl rhan o'r arfordir, mae Llwybr Arfordir Cymru wedi'i alinio'n fewndirol, ac yn wir mae'n gorwedd cryn bellter o'r arfordir ei hun. Mewn sawl achos, cynlluniwyd y rhannau hyn er mwyn osgoi peryglu'r cyhoedd, ardaloedd o fywyd gwyllt, rhannau adeiledig, ardaloedd milwrol, porthladdoedd, a datblygiadau arfordirol eraill. Bu iddynt ddigwydd mewn ardaloedd eraill o ganlyniad i fethu cytuno ar lwybr â thirfeddianwyr preifat. Ar sail yr egwyddor hon ar ei phen ei hun, felly, gallai creu tir mynediad arfordirol fod yn anodd iawn. Gellid eithrio mathau penodol o dir, ond bydd hyn yn aml yn ei gwneud yn ofynnol gosod arwyddion clir ar lawr gwlad, fel bod ymwelwyr yn ymwybodol o ble y gallant fynd, ynteu beidio.

Ceir problem hefyd wrth gynnwys ynysoedd, y ceir amrywiaeth eang ohonynt o safbwynt eu maint, eu defnydd a'u perchenogaeth.

Mae'r arfordir yn newid yn gyson hefyd, gyda rhai ardaloedd yn erydu ac yn syrthio i'r môr, tra ceir adeiladu ar y tir ar hyd rhannau eraill, a cheir hefyd materion yn ymwneud ag amddiffynfeydd arfordirol a/neu waith rheoli. Bydd angen ystyried hyn yn y broses o ddiffinio diwygiad i dir mynediad arfordirol.

**Materion allweddol:**

19. Sut y gall deddfwriaeth ddiwygio ddiffinio tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy mewn ffordd eglur fel ei fod yn rhwydd ei nodi ar lawr gwlad? Sut y gall hyn gynnwys terfynau y mae modd eu hadnabod ar gyfer y terfyn ar ochr y tir, gan gynnwys, o bosib, Lwybr Arfordir Cymru?
20. Sut y dylai'r ddeddfwriaeth ddiffinio'r mathau o dir y mae'r hawliau'n berthnasol iddynt, neu beidio, a'r mathau o dir hynny y dylai fod yn dir eithriedig (e.e. ystyried ynysoedd, clogwyni, chwareli, parthau rhyng-lanwol, blaendraethau eraill, aberoedd, twyni, fflatiau llaid, a morfeydd heli)?

21. Sut y gellir sicrhau bod diffiniadau a phrosesau ar gyfer tir mynediad agored arfordirol yn hyblyg fel y gallant ymateb i newid arfordirol naturiol ac o waith dyn, gan gynnwys darparu ar gyfer parhad i fynediad cyhoeddus?
22. Sut y dylai'r ddeddfwriaeth ddarparu ar gyfer gwaith mapio nodweddion fertigol fel clogwyni a chwareli, ac ar gyfer y gweithgareddau a ganiateir yn y lleoliadau hyn?

## Cydberthynas â thir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy

Pwynt allweddol a gafodd ei ystyried ynglŷn â hyn oedd p'un a fyddai Diwygiad 1A ar gyfer tir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy hefyd yn berthnasol i fynediad arfordirol newydd o dan Ddiwygiad 1B. Byddai'n bosibl eu datblygu fel dwy ffurf ar fynediad ar wahân, ond byddai hynny'n gofyn am esbonio hawliau a chyfrifoldebau yn ofalus ac yn eglur. Fel arall, gellid cymhwyso'r hawliau newydd a gorfforir yn Niwygiad 1A i Ddiwygiad 1B hefyd. Byddai hyn yn golygu y gallai beicwyr a marchogwyr ceffylau, er enghraifft, gael mynediad i ardaloedd arfordirol, gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru, ac, ynghyd â hynny, gallai nofwyr, a cherbydau nad ydynt wedi'u pweru'n fecanyddol, gael mynediad i draethau a thraethlinau sy'n breifat ar hyn o bryd.

Pe câi hawliau beicio a marchogaeth ceffylau eu cymhwyso, ceid goblygiadau iechyd a diogelwch clir, er enghraifft lle byddai beicwyr yn teithio ar hyd ardaloedd â chlogwyni serth, neu'n teithio'n gyflym ac yn cael effaith ar gerddwyr. Ceir problem hefyd ynghylch yr effaith o ddibrisio eiddo arfordirol o ganlyniad i ddarparu mynediad cyhoeddus newydd i'r hyn a fu'n dir preifat yn flaenorol.

Yn gyffredinol, gwneir defnydd mwy dwys o'r parth arfordirol na thir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy sydd eisoes yn bodoli. Mae'n bosibl y câi'r broblem o ddarparu mynedfeydd ac allanfeydd ar gyfer marchogwyr ceffylau a beicwyr ei dwysáu yn y parth arfordirol.

Bydd angen diffinio defnydd gwaharddiadau a chyfyngiadau ar dir mynediad arfordirol, ac ni ddylai gyfyngu ar yr hawliau mynediad presennol ar gyfer cerddwyr lle bônt yn bodoli.

**Materion allweddol:**

23. Sut y dylai'r ddeddfwriaeth nodi pa hawliau defnyddwyr sy'n berthnasol i dir arfordirol diffiniedig mewn modd sy'n gwbl eglur?
24. Pa fecanweithiau sydd eu hangen er mwyn gwahardd mynediad i fathau o dir arfordirol a/neu fathau o ddefnydd, neu gyfyngu arno, wrth gadw'r bwriad cyffredinol i sicrhau teithiau cysylltiol parhaus ar hyd yr arfordir?

## Cymharu â Lloegr

Mae'n berthnasol ystyried sut y byddai unrhyw gynigion ar gyfer Cymru yn cyd-fynd â'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn Lloegr, lle mae darpariaethau ar gyfer mynediad arfordirol wrthi'n cael eu datblygu, er nad oes llwybr arfordir wedi'i gwblhau'n llwyr, hyd yn hyn, sy'n efelychu Llwybr Arfordir Cymru. Ceir cyfle i ddysgu o'r profiad a enillwyd yn Lloegr.

Un o'r buddion o greu mynediad arfordirol ar sail y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yw y gall ddarparu *gofod i ymestyn*, ac, mewn rhai achosion, gall leddfu'r pwysau ar y llwybr arfordir presennol. Ond gall arwain at beryglon iechyd a diogelwch lle ceir achosion o aelodau o'r cyhoedd yn ceisio dringo clogwyni neu groesi ardaloedd llanwol peryglus. Gallai darparu mynediad arfordirol, mewn rhai achosion, ei gwneud yn haws i gytuno ar *adlinio* Llwybr Arfordir Cymru er mwyn darparu ar gyfer erydu arfordirol.

## Rheoli ymwelwyr

Nododd y grŵp arbenigol amrediad o bwysau ychwanegol gan ymwelwyr a allai ddeillio o'r diwygiad.

- Gellid gweld cynnydd mewn achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys gollwng sbwriel a thipio anghyfreithlon mewn rhai ardaloedd arfordirol. Gellid hefyd gweld problemau lleol o safbwynt mwy o achosion o yrru oddi ar y ffordd ac o feicio mynydd mewn ardaloedd sensitif.
- Gallai mynediad arfordirol arwain at fwy o achosion o wersylla anghyfreithlon a chynnau tanau, yn enwedig ar dwyni.
- Mae llawer o draethau poblogaidd yn gosod cyfyngiadau ar gŵn yn ystod yr haf, felly byddai angen sicrhau aliniad â'r hawliau sydd wedi'u corffori mewn mynediad arfordirol.
- Bydd llawer o oblygiadau ac effeithiau posibl ar dir amaethyddol, gan gynnwys difrodi terfynau neu amharu ar anifeiliaid. Bydd hyn yn gofyn am ddull o reoli ymwelwyr, a bydd goblygiadau cost ynghlwm wrtho o safbwynt awdurdodau lleol a'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arfordirol.
- Os bydd Diwygiad 1A hefyd yn berthnasol i dir mynediad arfordirol, gallai'r pwysau ar arwyneb Llwybr Arfordir Cymru ac ar arwyneb llwybrau arfordirol eraill â hawliau mynediad fod yn sylweddol mewn mannau, o ganlyniad i feicwyr a marchogwyr ceffylau – a bydd hyn yn arwain at gynnydd sylweddol mewn costau ar gyfer CNC ac awdurdodau lleol.
- Bydd angen hefyd sicrhau y darperir gwybodaeth i ymwelwyr fel bod aelodau'r cyhoedd yn gwybod i ble y gallant fynd a sut i ymddwyn yn gyfrifol. Er enghraifft, os ceir gwrthdaro mewn mannau cul, rhwng y bobl sydd eisoes yn cerdded ar hyd llwybr arfordirol a marchogwyr ceffylau/beicwyr, sut y dylai pobl ymddwyn a sut y dylid rheoli hyn?
- Bydd angen hefyd rheoli disgwyliadau ymwelwyr a sicrhau bod negeseuon eglur ynghylch yr hyn y gall pobl ei wneud ynteu beidio. Nid yw creu mynediad arfordirol drwy hawl yn golygu, o reidrwydd, y gallwch gerdded neu reidio ar hyd rhannau penodol mewn gwirionedd, oni bai fod y seilwaith a chyfleusterau priodol yn eu lle. Bydd angen hefyd cyfleu'r lefel o risg sydd ynghlwm wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau penodol ar hyd rhai rhannau o'r arfordir.

## Newid arfordirol

Cafodd effaith newid arfordirol ei hystyried yn benodol. Mae hyn yn enwedig yn berthnasol o safbwynt yr angen i *adlinio* Llwybr Arfordir Cymru er mwyn darparu ar gyfer achosion lle bo darnau o'r clogwyn yn cwympo i'r môr ac ati. Mae hwn yn fater yr ymdrinnir ag ef fesul achos, ond bydd gofyn o hyd am gael arweiniad manwl a mabwysiadu gweithdrefnau cyson. Er enghraifft, beth fydd yn digwydd o ran digolledu am godi ffensys newydd neu am golli tir fferm? Codwyd cwestiwn ynghylch p'un a ellid ariannu trefniadau o'r fath o dan gynllun amaeth-amgylcheddol yn y dyfodol.

Bydd angen hefyd sicrhau bod trefniadau mynediad arfordirol diwygiedig yn plethu â'r gwaith o reoli amddiffynfeydd arfordirol a'r arfordir drwy Gynlluniau Rheoli Traethlin.

## Effeithiau ychwanegol

Yn olaf, ystyriodd y grŵp arbenigol amrediad o effeithiau ychwanegol na roddwyd sylw iddynt yn flaenorol. Roedd y rhain yn cynnwys: bywyd gwyllt, buddiannau economaidd, pwysau ychwanegol ar reolwyr tir a ffermwyr, a'r costau i'r sector cyhoeddus.

### Caiff y rhain eu crynhoi isod:

**Bywyd gwyllt:** gallai pwysau gynnwys hela adar gwyllt ar aberoedd, neu effaith arforgampau a digwyddiadau masnachol ar raddfa fawr ar fywyd morol, fel morloi a lloi bach. Gallai dringo clogwyni yn ystod y tymor nythu gael effaith hefyd. Rheolir llawer o'r gweithgareddau hyn drwy gyfres o gytundebau rheoli unigol, sy'n gweithio'n dda yn gyffredinol, ac yn annog ymddygiad cyfrifol. Gallai dull sy'n fwy agored ac yn seiliedig ar hawliau arwain at fwy o achosion o ymddygiad anghyfrifol sy'n gwneud niwed i fuddiannau bywyd gwyllt. Gellid rheoli hyn trwy gyfyngiadau tymhorol, ond gallai fod llawer o'r rhain a llwyth gwaith sylweddol ynghlwm wrthynt.

**Buddiannau economaidd:**fel y nodwyd yn flaenorol, gallai hawliau mynediad arfordirol newydd wrthdaro ag amwynderau eiddo preswyl, gan leihau ei breifatrwydd a'i werth. Gellid hefyd gweld effaith ar bysgota, dal cocos a gweithfeydd ynni adnewyddadwy arfordirol.

**Effaith ar ffermio:** rhoddwyd sylw i lawer o'r effeithiau hyn yn flaenorol, ond gallai mynediad arfordirol ychwanegol a grwpiau o ddefnyddwyr newydd ddod â phwysau pellach ar dir ac arferion amaethyddol. Er enghraifft, gellid gweld effaith ar gynlluniau ailblannu ac aildyfu llystyfiant ar hyd yr arfordir, ynghyd â chwistrellu cnydau. Yn ogystal, gall fod angen addasu trefniadau pori er mwyn osgoi gwrthdaro ag ymwelwyr. Byddai angen cael eglurder o ran unrhyw atebolrwydd ychwanegol a gâi ei osod ar ffermwyr o ganlyniad i sefydlu tir mynediad arfordirol.

**Costau i’r sector cyhoeddus:** byddai'r rhain yn cynnwys y costau a fyddai ynghlwm wrth ddarparu mynedfeydd neu allanfeydd ychwanegol a/neu rai a addaswyd, a mesurau rheoli ymwelwyr, cyfathrebu a gwybodaeth gyhoeddus, ac wrth y gwaith o ymdrin ag anomaleddau cyfreithiol mewn perthynas ag is-ddeddfau a rheoliadau arfordirol eraill.

**Materion allweddol:**

25. Sut y dylid cyfleu’n eglur ba ardaloedd o dir mynediad arfordirol y ceir hawl i fynd iddynt ynteu beidio, a'r gweithgareddau a ganiateir ynteu beidio, i fuddiannau gwahanol?

Yn ogystal â'r materion allweddol a nodwyd yn benodol ar gyfer Diwygiad 1B, gallai'r materion allweddol canlynol a nodwyd ar gyfer Diwygiad 1A hefyd fod yn berthnasol i'r broses o ddiwygio mynediad arfordirol:

### Materion allweddol o Adran 1A:

1A-4. Pa ddyletswyddau a phwerau y bydd eu hangen, o ganlyniad i'r newidiadau, er mwyn ei gwneud yn bosibl hwyluso a rheoli mynediad ar gyfer pob defnyddiwr, o fewn tir mynediad, ac iddo, ac er mwyn lliniaru yn erbyn effeithiau lle bônt yn digwydd?

1A-5. Pa newidiadau fydd eu hangen i sicrhau y bydd modd arfer hawliau ar lawr gwlad? Pa ddyletswyddau fydd yn ofynnol er mwyn gallu mynd i'r afael â materion sy'n codi o safbwynt mynediad a rheoli tir?

1A-6. Sut fydd y newidiadau'n darparu ar gyfer cynllunio ac asesu anghenion mewn perthynas â rheoli mynediad er mwyn hwyluso mynediad, neu er mwyn mynd i'r afael â phroblemau mynediad ar lawr gwlad, ac yn ymdrin hefyd â materion ar lawr gwlad mewn perthynas â thir, a rhwng pobl?

1A-7. Sut fydd y costau, a'r gofynion adnoddau cynyddol a fydd yn deillio o'r newidiadau i'r dulliau o reoli mynediad a rheoli tir, yn cael eu hasesu?

1A-8. Pa newidiadau i drefniadau gwahardd a chyfyngu y bydd eu hangen wrth newid hawliau mynediad?

1A-9. Sut y dylai newidiadau'r diwygiadau ddarparu ar gyfer iechyd a diogelwch defnyddwyr a buddiannau eraill?

1A-10. Beth yw'r ffordd orau o gyfleu gwybodaeth am ymddygiadau priodol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid (gan gynnwys hawliau a chyfrifoldebau), a chyflawni'r ymddygiadau priodol hyn, a'u gorfodi lle bo angen?

1A-13. Sut fydd y newidiadau'n sicrhau iechyd a diogelwch defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill?

1A-14. Sut y gallai canllaw/fframwaith ar gyfer hybu ymddygiad cyfrifol wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden fod yn ddigon ymaddasol i gadw'n gyfoes â newidiadau ym maes hamdden, ac yn ddigon effeithiol i fod yn offeryn defnyddiol ar gyfer rheoli ymwelwyr?

## Pethau eraill i'w hystyried

Wrth ddatblygu cynigion opsiynau diwygio ar gyfer Diwygiad 1A a Diwygiad 1B, dylid hefyd ystyried y materion canlynol:

- Y cydberthynas rhwng Diwygiad 1A a Diwygiad 1B, a ph'un a gaiff yr hawliau ychwanegol arfaethedig o dan Ddiwygiad 1A eu hymestyn i Ddiwygiad 1B yn ogystal.
- Cyflwyno *gofod i ymestyn arfordirol* yn Lloegr a'r cyfleoedd sy'n deillio o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.
- Y cydberthynas rhwng Diwygiad 1A a Diwygiad 1B, a hefyd yr opsiynau hynny a gynigir o dan Ddiwygiad 2A er mwyn alluogi mynediad hawliau uwch i lwybrau troed cyhoeddus. Yn benodol, dylid ystyried unrhyw oblygiadau o ganlyniad i ddarparu mynediad i'r *gofod i ymestyn* i farchogwyr ceffylau a beicwyr a/neu unrhyw faterion iechyd a diogelwch a allai ddeillio o hynny.